Lowri Williams, Pandy'r-ddwyryd, ail hanner y 18fed ganrif
Apostol a Christion

Ni wyddom nemor ddim am fanylion bywyd Lowri Williams ond y mae hanesion ar gof a chadw am ei harwriaeth. Pan oedd yn byw yn y Pandy, Chwilog, Llŷn, fe ddaeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu, ac o ganlyniad i'w hargyhoeddiadau dioddefodd erledigaeth. Fe'i rhybuddiwyd i adael ei chartref a symudodd hi a'i phriod i Bandy'r-ddwyryd, plwyf Maentwrog. Ar ôl symud bu'n chwilio am gynulleidfa o gredinwyr i ymuno â hwy ond nid oedd un yn y cyffiniau. I un cyfeiriad, yr agosaf oedd ym Mrynegan, pymtheng milltir i ffwrdd, ac i'r cyfeiriad arall yn y Bala, deunaw milltir i ffwrdd.

Dyheai am gymdeithas y saint a sychedai ei henaid am glywed Efengyl Iesu Grist yn cael ei chyhoeddi, felly nid oedd dim amdani ond cynnal cyfarfodydd yn ei chartref. Dyma gychwyn achos y Methodistiaid Calfinaidd yn y parthau hynny. Llwyddodd i gael cyhoeddiad gan bregethwr a chynnull wyth o bobl o feddwl cyffelyb at ei gilydd i'r moddion. Oherwydd mai dim ond wyth oedd yno ar y dechrau gelwid y gymdeithas yn Arch Noa. Trwy ei llafur hi plannwyd eglwysi yn ardaloedd Maentwrog, Penrhyndeudraeth a Thrawsfynydd.

Ond nid oedd y datblygiad yn fêl i gyd oherwydd bu rhaid iddi wynebu gwrthwynebiad. Ar un achlysur yr oedd mewn cyfarfod yng Ngwylan, cartref John Humphreys, un o'r wyth a arferai addoli yn y Pandy. Pregethid y noson honno gan y Parch. Thomas Foulkes o'r Bala (1731–1802), un o gynghorwyr cynnar y Methodistiaid. Yn ystod y gwasanaeth daeth erlidwyr blin ar eu gwarthaf yn llawn dicllonedd a llid. Ymosodasant ar Lowri Williams a'r pregethwr gan eu cario allan a'u taflu'n bendramwnwgl i afon gerllaw. Trawodd hi ei phen yn erbyn carreg a bu'n ddiymadferth am ychydig a'i gwaed yn rhuddo'r dŵr. Wrth weld ei fam yn cael ei chamdrin oherwydd ei chrefydd fel hyn, cynhyrfwyd ei mab yn fawr. Gyrrodd lythyr at gefnder a oedd yn

gyfreithiwr yn Llundain yn gofyn am ei gymorth ac yn rhoi enw'r wraig oedd yn annog yr erlidwyr. Anfonodd y cefnder lythyr twrna ati hithau gan ei bygwth y byddai'n cael ei chosbi yn drwm gan y gyfraith pe bai'r erlid yn parhau. Dychrynwyd y wraig gan y llythyr ac fe gafodd y ffyddloniaid heddwch i addoli yn ôl eu cydwybod.

Gelwid Lowri Williams yn 'Apostol' gan rai oherwydd ei chariad tuag at yr Arglwydd Iesu a'r tân a losgai yn ei mynwes dros waith ei deyrnas. Gweddïai'n gyson ac yr oedd y llwybrau o'r tŷ i'r mannau lle roedd yn gweddïo wedi gwisgo'n llyfn. Ni chollai unrhyw gyfle i ddweud gair wrth eraill am ei Gwaredwr, a thrwy hynny enillodd lawer i'r ffydd.

Yr oedd hi'n un o gannoedd os nad miloedd o ferched yng Nghymru a fu'n allweddol yn natblygiad Cristnogaeth. Gwragedd oeddynt a agorodd eu calonnau i'r Arglwydd, a agorodd eu cartrefi i'w waith, ac a ddefnyddiodd eu doniau i hybu ei deyrnas yn ôl fel yr oedd arferion cymdeithasol y cyfnod yn caniatáu iddynt wneud.